Hysbysiad preifatrwydd

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn Rheolydd Data ac rydym yn gyfrifol am benderfynu'r ffordd yr ydym yn dal ac yn defnyddio'r wybodaeth bersonol yr ydych yn ei darparu ar y ffurflen gais hon. Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad hwn i ddeall sut y defnyddir eich data, pwy all gael mynediad ato, y sail gyfreithlon dros ddal eich gwybodaeth a'ch hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth hon.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data CGGC Matt Brown drwy ebostio dpo@wcva.cymru neu ffonio 0300 111 0124.

Mae angen i WCVA gasglu'r wybodaeth hon gennych er mwyn prosesu'ch cais i ymuno â Bwrdd WCVA.

Y sail gyfreithlon yr ydym yn dibynnu arni o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i brosesu yw bod hynny'n angenrheidiol ar gyfer buddiannau cyfreithlon y rheolydd. Erthygl 6(1)(f) o'r GDPR. Y buddiannau cyfreithlon yw'r rheini sydd gan WCVA i recriwtio ymddiriedolwyr newydd i ymuno â Bwrdd WCVA, ac i enwebeion, er mwyn i ni brosesu'ch cais.

Gan ein bod yn gofyn am ddata (sensitif) Categori Arbennig er dibenion monitro Cyfle Cyfartal, mae angen sail gyfreithlon ychwanegol i brosesu'r wybodaeth hon. Y sail gyfreithlon yr ydym yn dibynnu arni yw'ch 'caniatâd penodol', Erthygl 9(2)(a) o'r GDPR. Nid oes raid i chi ddarparu'r wybodaeth hon i ni, os ydych yn ei darparu, mae gennych yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl unrhyw bryd drwy gysylltu â Swyddog Diogelu Data CGGC.

Bydd gwybodaeth ar geisiadau aflwyddiannus yn cael ei chadw'n ddiogel ar ffurf electronig ar systemau WCVA am dri mis ar ôl y dyddiad cau. Bydd ceisiadau llwyddiannus yn cael eu cadw'n ddiogel ar ffurf

electronig ar systemau WCVA am y cyfnod yr ydych yn Ymddiriedolwr i WCVA.

Ni fyddwn yn rhannu'r wybodaeth hon y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a gedwir gan CGGC amdanoch, gan gynnwys:

- Mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopi o'ch gwybodaeth bersonol. Mae rhai eithriadau, sy'n golygu na ydych bob tro yn derbyn yr holl wybodaeth yr ydym yn ei brosesu.
- Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth sydd yn anghywir. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni i gwblhau gwybodaeth y credwch sydd heb ei gwblhau.
- Mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol mewn sefyllfaoedd penodol.
- Mae gennych yr hawl i ofyn i ni atal prosesu eich gwybodaeth mewn rhai sefyllfaoedd.
- Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu os ydym yn gallu prosesu eich gwybodaeth oherwydd bod y ffurflenni prosesu yn rhan o dasgau cyhoeddus, neu o ddiddordeb cyfreithlon i ni.
- Mae hyn yn gymwys yn unig i wybodaeth yr ydych wedi ei ddarparu i ni. Mae gennych yr hawl i ofyn i ni symud y wybodaeth yr ydych wedi ei ddarparu i ni o un mudiad i un arall neu ei roi yn ôl i chi. Mae'r hawl yma'n gymwys yn unig os ydym yn prosesu gwybodaeth wedi ei seilio ar eich caniatad neu o dan, neu mewn trafodaeth ynghylch mynd i gytundeb a bod y broses yn un awtomatig.

Nid yw'n ofynnol arnoch i dalu i ddefnyddio eich hawliau. Mae gennym fis i ymateb i'ch cais.

Os hoffech ddefnyddio unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data CGGC.

Os hoffech gwyno ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ffordd yr ydym wedi delio gyda'ch data personol gallwch gysylltu â'r Awdurdod Goruchwylio yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire SK9 5AF.